Dogfen Ymgynghori

# Dull arfaethedig at ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru ar gyfer hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd a labelu.

## Tudalen grynodeb yr ymgynghoriad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad lansio:** | **07 Ionawr 2019** | **Dyddiad cau:** | **04 Chwefror 2019** |

**Pwy fydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn?**

Awdurdodau gorfodi, gweithgynhyrchwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr cynhyrchion bwyd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau technegol arfaethedig i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n berthnasol yng Nghymru i hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd a deddfwriaeth labelu i sicrhau y gall y ddeddfwriaeth hon barhau i weithredu ar ôl i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

**Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?**

Rhoi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar ein cynigion i wneud cywiriadau technegol i'r ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol, ac ar ein dewisiadau ar gyfer y cywiriadau mwy sylweddol a allai fod eu hangen mewn perthynas â safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd a labelu.

**Dylid anfon ymatebion i’r ymgynghoriad hwn at:**


**Kerys James-Palmer**
**Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**
**Llawr 11, Tŷ Southgate**
**Wood Street**
**Caerdydd**

**E-bost** food.policy.wales@food.gov.uk


| | | |
|---|---|---|
| **A oes Asesiad Effaith ynghlwm?** | **Oes** ☐ | **Nac oes** ☒ **Gweler Atodiad A am y rheswm pam.** |

FOOD HYGIENE RATING
food.gov.uk/ratings

INVESTORS IN PEOPLE

**Dull arfaethedig at ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru ar gyfer hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd a labelu.**

## Manylion yr ymgynghoriad

Byddai’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn croesawu eich sylwadau ar ein cynigion.

## Cyflwyniad

1. Rydym ni'n ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ddomestig ar (a) hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, a (b) safonau ynghylch cyfansoddiad a labelu bwyd. Rhennir y meysydd gwaith hyn ar draws gwahanol adrannau'r llywodraeth ac felly maent yn cael sylw ar wahân yn y ddogfen hon.

2. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ar gyngor yr ASB yn gwneud cywiriadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE mewn cysylltiad â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a bydd Defra yn gwneud cywiriadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE mewn perthynas â labelu bwyd. Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i gyfraith gyfredol yr UE ar safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd.

3. Mae angen y diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ddomestig i sicrhau y gall ystod o ddarpariaethau barhau i weithredu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Byddai'r diwygiadau a gynigir, a’r dewisiadau a esbonnir, yn berthnasol pe na bai'r UE a'r DU yn cytuno ar gyfnod pontio na threfniant partneriaeth a dull cyffredin at ddeddfwriaeth bwyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

4. Pan fo dewisiadau ar ba welliannau y dylid eu gwneud, fe'u disgrifir yn y ddogfen hon.

## Cynigion

5. Mân gywiriadau technegol yw'r diwygiadau arfaethedig, sy'n cwmpasu ystod o faterion, gan gynnwys:
    - Diwygiadau dilynol a achosir gan ddiwygiadau/diddymiadau i Erthyglau yn Rheoliadau'r UE y mae'r Rheoliadau domestig hyn yn eu gorfodi.
    - Cyfeiriadau at 'Aelod-Wladwriaethau'/trydydd Gwledydd' eraill nad ydynt bellach yn briodol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
    - Dileu darpariaethau segur yn neddfwriaeth Cymru sy'n cyfeirio at swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd (Comisiwn) sy'n berthnasol yng Nghymru (e.e. darpariaethau sy'n rhoi pŵer i weithwyr y Comisiwn i fynd i mewn i eiddo yng Nghymru). Bydd y cywiriadau a wneir i gyfraith uniongyrchol yr UE gan Lywodraeth y DU yn dileu swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas â Chymru.
    - Dileu cyfeiriadau at daliadau mewn Euros.

6. Yn ychwanegol at y mân gywiriadau technegol hyn, mae angen ystyried dewisiadau polisi mwy sylweddol mewn perthynas â labelu a safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd.

**Cefndir**

7. Yn dilyn canlyniad refferendwm ymadael â'r UE yn 2016, mae'r ASB yng Nghymru wedi bod yn adolygu pa mor weithredol yw pob deddfwriaeth ddomestig o ran bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n gymwys yng Nghymru y mae ganddi gyfrifoldeb polisi ar ei chyfer. Pwrpas yr adolygiad yw nodi'r diwygiadau sydd eu hangen i'r ddeddfwriaeth i sicrhau ei bod yn weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

8. Bydd y Rheoliadau a gynigir yn mynd i'r afael â'r cywiriadau angenrheidiol a nodwyd yn ein rheoliadau domestig mewn perthynas â (a) hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a (b) safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd a labelu. Mae'r rheoliadau domestig hyn yn darparu'n bennaf ar gyfer gorfodi rheoliadau uniongyrchol yr UE. O ran safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd, maent hefyd yn trosi Cyfarwyddebau'r UE. Roedd y cywiriadau y mae angen eu gwneud i ddeddfwriaeth uniongyrchol berthnasol yr UE yn y maes hwn yn destun ymgynghoriadau ar wahân ym mis Medi a mis Hydref 2018:

- https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/dull-arfaethedig-o-ran-cadw-cyfraith-yr-undeb-ewropeaidd-ue-ar-gyfer-diogelwch-a-hylendid-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid

- https://consult.defra.gov.uk/food/food-labelling-amending-laws/

**Newidiadau arfaethedig**

9. Mae'n debygol y bydd angen cywiriadau i'r Offerynnau Statudol canlynol:

Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004

Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007

Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaeth Swyddogol) (Cymru) 2007

Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009

Rheoliadau Arbelydriad am Fwyd (Cymru) 2009

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Allforion o Tsieina) (Cymru) 2011

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau sy'n Dod i Gysylltiad â Bwyd (Ymadael â'r UE) 2012

Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016

Rheoliadau Bwyd Newydd (Cymru) 2017

## Safonau ynghylch Cyfansoddiad a Labelu Bwyd

Rheoliadau Bwyd (Marcio Lot) 1996

Rheoliadau Bara a Blawd 1998

Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008

Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

Y Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati. (Cymru) 2014

Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015

Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015

Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016

Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018

10. Mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau arfaethedig yn fân gywiriadau technegol na fydd yn arwain at newid polisi a byddant yn ymdrin ag ystod o faterion, er enghraifft, dileu cyfeiriadau at yr UE neu daliadau mewn Euros. Bydd y gwelliannau hefyd yn cynnwys mân newidiadau technegol i'r Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Amddiffyn Dynodiadau) (Cymru) 2008, y mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb polisi drostynt.

11. Ni fydd y diwygiadau yn arwain at newid sylweddol yn lefel y diogelwch y mae deddfwriaeth ddomestig Cymru yn ei darparu i iechyd pobl, neu i safon uchel bwyd a bwyd anifeiliaid (gan gynnwys darparu gwybodaeth am fwyd a labelu).

12. Yn ychwanegol at y mân gywiriadau technegol hyn, mae angen ystyried dewisiadau polisi mwy sylweddol ar gyfer deddfwriaeth labelu a safonau ynghylch cyfansoddiad bwyd fel y nodir isod.

**Mêl – Gwlad Tarddiad**

13. Mae Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015 yn nodi bod rhaid i ddeunydd pecynnu mêl ddangos gwlad tarddiad y mêl. Pan fo'r mêl wedi'i gymysgu o fwy nag un wlad tarddiad, gellir ei labelu ar hyn o bryd fel 'UE', 'heb fod o'r UE' neu 'UE a heb fod o'r UE' (neu restru'r gwledydd tarddiad unigol).

*Dewisiadau:*

Dewis 1 – **dim newid**

14. Pe bai rheolau cyfredol ar gyfer dangos gwlad tarddiad y mêl yn cael eu cadw, byddai'n dal i fod yn ofynnol i ddeunydd pecynnu mêl naill ai ddangos pob un o wledydd tarddiad y mêl, neu ddangos a oedd y mêl yn dod o wledydd yr UE. Nid yw'r ASB o'r farn y byddai'r dewis hwn o gadw labelu sy'n canolbwyntio ar yr UE yn briodol unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Dewis 2 – **'cyfuniad o fêl o fwy nag un wlad'**

15. O dan y dewis hwn, gellid dangos y term 'cyfuniad o fêl o fwy nag un wlad' ar y label yn hytrach na rhestru'r gwledydd tarddiad unigol. Gallai'r dewis hwn gynyddu baich labelu ar gynhyrchwyr i ddechrau (ond gweler isod am y posibilrwydd o gynnwys darpariaeth drosiannol), ond mae'r dewis hwn yn cael ei ystyried fel un sy'n rhoi llai o faich ar fusnesau'r DU o'i gymharu â dewis 3. Dim ond un math o eiriad fyddai ei angen ar gyfer pob mêl cymysg "o fwy nag un wlad", gan ei gwneud yn haws i fusnesau bwyd perthnasol. Bydd defnyddwyr yn dal i fod yn ymwybodol bod y mêl yn cynnwys cyfuniad o fêl o wahanol darddiadau ond ni fyddai'n bosib adnabod cymysgedd o fêl Ewropeaidd o gymysgeddau nad ydynt o Ewrop.

16. Fel rhan o'r dewis hwn, gellid gosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu i fusnesau bwyd osod a chadw cynhyrchion sydd wedi'u labelu cyn y diwrnod ymadael yn unol â gofynion labelu cyfredol yr UE ar y farchnad.

Dewis 3 – **'o'r DU' / 'heb fod o'r DU'**

17. O dan y dewis hwn, yn hytrach na rhestru'r gwledydd tarddiad unigol, byddai modd i gynhyrchwyr ddefnyddio'r termau 'cyfuniad o fêl o'r DU a heb fod yn y DU' neu 'gyfuniad heb fod o'r DU' ar y labeli. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ymarferol oherwydd bod mêl o'r DU fel arfer yn cael ei werthu fel cynnyrch tarddiad unigol ac yn anaml y caiff ei gymysgu. Byddai'r dewis hwn hefyd yn cynyddu baich labelu ar gynhyrchwyr trwy orfodi labelu newydd ar fêl cymysg o fwy nag un wlad sydd ar hyn o bryd yn defnyddio 'yr UE' / 'heb fod o'r UE' (yn hytrach na rhestru gwledydd tarddiad unigol), a byddai'n gostus i fusnesau lle nad oes dewisiadau cymysg ar gyfer y DU ar gael, ac efallai y byddant yn awgrymu cynnyrch israddol.

18. Er mwyn lliniaru rhywfaint o'r baich ychwanegol hwn gellid gosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu i fusnesau bwyd osod a chadw cynhyrchion sydd wedi'u labelu cyn y diwrnod ymadael yn unol â gofynion labelu cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr UE ar y farchnad.

C1: Ydych chi’n cytuno bod y rhagdybiaeth a amlinellir ym mharagraffau 14 – 18 yn rhesymol?

C2: Yn eich barn chi, beth yw’r dewis gorau o’r rhai a ddisgrifir?

Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

C3: Ydych chi’n ystyried bod angen cyfnod trosiannol ar gyfer dewisiadau dau a thri?

C4: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod?

Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

### Cydnabod Dŵr Mwynol Naturiol

19. Mae Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed Wedi'i Botelu (Cymru) 2015 ("rheoliadau dŵr wedi'i botelu") yn gweithredu, ymhlith pethau eraill, ddeddfwriaeth yr UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddŵr mwynol naturiol fynd trwy broses gydnabod i brofi bod ganddo'r cyfansoddiad a'r nodweddion angenrheidiol i'w werthu a'i farchnata fel dŵr mwynol naturiol ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Cynhelir cydnabyddiaeth gan Aelod-wladwriaethau unigol yn unol â rheolau'r UE.

20. Ar hyn o bryd, mae'r DU yn cydnabod 63 cyflenwr dŵr mwynol naturiol (60 domestig a 3 o drydydd gwledydd presennol), yn sgil proses gydnabod lawn yn y DU.

21. Bydd angen diwygio'r rheoliadau presennol unwaith y byddwn yn ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019, boed hynny gyda chytundeb partneriaeth economaidd yn y dyfodol neu yng nghyd-destun sefyllfa dim bargen. Pe byddem yn gadael y rheoliadau heb eu diwygio, byddai geiriad y rheolau cyfredol yn y cyd-destun newydd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol:

    - Gallai gadael cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2009/54 yn eu lle, yn hytrach na phennu'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn y DU, greu amwysedd dros allu Cymru i bennu beth ellir ei hysbysebu, ei werthu neu ei fasnachu fel dŵr mwynol naturiol yng Nghymru. Mae yna berygl hefyd na fyddai modd masnachu dŵr mwynol naturiol o Loegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yng Nghymru wedi hynny.

22. Er mwyn sicrhau bod modd parhau i weithredu, rhaid newid y rheolau domestig, a diwygio'r testun i gyd-fynd â statws newydd y DU y tu allan i'r UE.

23. Mae Comisiwn yr UE wedi nodi, oni bai bod cytundeb masnach neu gytundeb partneriaeth economaidd yn y dyfodol yn darparu fel arall, na fydd dŵr mwynol naturiol lle cafodd y broses gydnabod ei chynnal gan y DU bellach yn cael ei gydnabod ym marchnad yr UE yn syth ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Cymerwch gip ar y ddolen i Hysbysiad y Comisiwn yn adran "dogfennau perthnasol eraill" y llythyr ymgynghori hwn.

24. Mae deddfwriaeth Cymru yn nodi bod gofyn i gynhyrchwyr dŵr mwynol naturiol nad ydynt yn yr UE gyflwyno ceisiadau unigol i fasnachu yng Nghymru i'r ASB. Mae'r broses yn cynnwys darparu swm mawr a chymhleth o ddata, sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, angen ei gasglu am hyd at ddwy flynedd cyn gwneud cais. Os yw'r gydnabyddiaeth yn llwyddiannus, bydd yn para pum mlynedd. Ar ôl y cyfnod hwn, mae'n rhaid i'r cynhyrchydd adnewyddu'r gydnabyddiaeth drwy ddilyn proses symlach yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau'r wlad tarddiad. Mewn sefyllfa lle na fyddai'r UE a'r DU yn cytuno ar drefniant partneriaeth a dull cyffredin o gydnabod dŵr mwynol naturiol, byddai rheolau Cymru ym maes defnyddio a marchnata dŵr mwynol naturiol yn berthnasol i gynhyrchwyr yn Aelod-wladwriaethau'r UE.

25. Yn 2016, mewnforiodd y DU werth £116.3 miliwn o ddŵr mwynol naturiol o'r UE. Brandiau Ffrengig fel Evian a Volvic yw'r dŵr mwynol naturiol sy'n gwerthu orau a gorau ond dau (yn y drefn honno) yn y DU.

**Dewisiadau ar gyfer newid – Cydnabod dyfroedd mwynol naturiol:**

Dewis 1 – **Cael gwared ar y gydnabyddiaeth ar gyfer dŵr mwynol naturiol yr UE o'r diwrnod cyntaf ar ôl i'r DU ymadael â'r UE**

26. Byddai'r dewis hwn yn golygu na fyddai dŵr mwynol naturiol yr UE bellach yn cael ei gydnabod yng Nghymru yn syth ar ôl i'r DU ymadael â'r UE heb fargen. Pe bai'r un diwygiadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth ddomestig gyfatebol sydd mewn grym yng ngweddill y DU, ni fyddai dŵr mwynol naturiol yr UE bellach yn cael ei gydnabod unrhyw le yn y DU. Byddai angen i'r cyflenwyr dŵr mwynol naturiol hyn gyflwyno cais llawn i un o weinyddiaethau'r DU i sicrhau cydnabyddiaeth cyn y gellid gwerthu eu dŵr fel un mwynol naturiol yn y DU.

27. Ni fyddai'r dewis hwn yn golygu bod busnes yn gallu parhau, ac fe allai arwain at • Effaith ar ddewis defnyddwyr o ran dŵr mwynol naturiol (mae cymaint ag un o bob tair potel o ddŵr mwynol naturiol a werthir yn y DU yn cael eu mewnforio o'r UE).

- Amrywiaeth mewn prisiau i'r defnyddiwr, oherwydd grymoedd y farchnad.
- Gallai newidiadau yn y farchnad hefyd ysgogi'r defnyddiwr i ddewis categori gwahanol o ddŵr potel, h.y. dŵr ffynnon, dŵr yfed wedi'i botelu, i ddewis diod wahanol, megis dŵr â blas a diodydd meddal eraill, neu i beidio â phrynu diod o gwbl ac i yfed dŵr tap. Byddai hyn yn effeithio ar bob cynhyrchydd dŵr mwynol naturiol, yn ddomestig a'r dŵr sy'n cael ei fewnforio.
- Cyfleoedd i gyflenwyr dŵr mwynol naturiol Cymru ehangu eu cyfran o'r farchnad.

28. Mae'r ASB yn cydnabod y byddai'r opsiwn hwn yn effeithio ar fusnesau sydd â stoc pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Hoffem gael gwybodaeth a thystiolaeth o faint yr effeithiau hyn ac i ba raddau y byddai trefniant trosiannol, lle gellir gwerthu stoc presennol, ond lle na fyddai caniatad i fewnforio unrhyw gynnyrch newydd, yn lliniaru'r effeithiau hyn.

Dewis 2 – **Trosglwyddo cydnabyddiaeth dŵr mwynol naturiol presennol yr UE**

29. Mae'n bosib mabwysiadu dull unochrog a pharhau ag unrhyw gydnabyddiaethau presennol ar gyfer dŵr mwynol naturiol o'r UE. Byddai hyn yn cynnig parhad a sefydlogrwydd i fusnesau a defnyddwyr.

30. Byddai parhau â chydnabyddiaethau presennol yr UE yn golygu bod modd cynnal y *status quo* ar gyfer dŵr mwynol naturiol presennol, lle bynnag y cynhaliwyd y broses gydnabyddiaeth yn yr UE. Byddai hyn yn adlewyrchu'r safbwynt bod y dŵr mwynol naturiol cydnabyddedig yn ddiogel wrth i ni ymadael â'r UE ac felly nid oes unrhyw reswm i dybio nad yw'r dŵr yn ddiogel ar ôl ymadael.

31. Fodd bynnag, dim ond am y chwe mis cyntaf ar ôl ymadael â'r UE y byddai modd gwarantu parhad y trefniant hwnnw ac ni fyddai modd ei warantu am byth. Gellid gwneud penderfyniad ar ryw adeg yn y dyfodol i dynnu'r cydnabyddiaethau sydd wedi'u parhau yn ôl, gan ddibynnu ar drafodaethau â'r UE ac ystyriaethau ar y pryd, a hynny bob amser ar ôl cyfnod rhybudd penodol.

32. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i dynnu cydnabyddiaethau dŵr mwynol naturiol yr UE yn ôl, ar ôl y chwe mis cychwynnol yn ogystal â'r cyfnod rhybudd, yna byddai'n rhaid

i'r dŵr gael ei gydnabod yn ffurfiol yng Nghymru trwy wneud cais o dan y Rheoliadau Dŵr Potel.

33. Byddai'r opsiwn hwn yn dileu (neu'n oedi) yr angen i ddŵr mwynol naturiol a ddilynodd broses gydnabod mewn mannau eraill yn yr UE ddilyn proses gydnabod yn y DU yn syth, gan sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad, a allai fel arall effeithio ar brisiau'r farchnad a dewis a hyder defnyddwyr yn syth ar ôl ymadael.

34. Ar yr un pryd, byddai'r dewis hwn yn rhoi mwy o amser i Gymru, gan weithio gyda'r gweinyddiaethau eraill yn y DU, ystyried. Byddai hefyd yn rhoi cyfnod ychwanegol o hyblygrwydd i benderfynu a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr dŵr mwynol naturiol lle mae eu ffynonellau wedi'u cydnabod mewn rhannau eraill o'r UE wneud cynrychioliadau o'u hamodau diogelwch ac ansawdd i weinyddiaethau yn y DU ac os felly, pryd y byddai'n gwneud hynny. Byddai hyn yn galluogi Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU i fod â rheolaeth lawn dros gydnabyddiaeth, ansawdd a diogelwch unrhyw ddŵr mwynol naturiol lle cafodd y weithdrefn i gydnabod y ffynhonnell ei chynnal rhywle arall yn yr UE.

Dewis 3 – **Trosglwyddo cydnabyddiaeth dŵr mwynol naturiol presennol yr UE am bum mlynedd**

35. Ar gyfer dŵr mwynol naturiol lle cafodd y broses gydnabod ei chynnal rhywle arall yn yr UE, mae'r opsiwn hwn yn cynnig cydnabyddiaeth barhaus yng Nghymru am gyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Pe bai'r un diwygiadau'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth ddomestig gyfatebol mewn grym yng ngweddill y DU, byddai'n ofynnol i ddŵr mwynol naturiol fod yn destun proses gydnabod lawn er mwyn parhau i gael ei werthu yng Nghymru a gweddill y DU ar ddiwedd y pum mlynedd hyn. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i gynhyrchwyr nad ydynt yn yr UE adnewyddu eu cydnabyddiaeth ar ôl pum mlynedd.

36. Byddai'r dewis hwn yn oedi'r angen i brosesu ceisiadau am bum mlynedd gan sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad, prisiau'r farchnad, a dewis a hyder defnyddwyr yn y cyfamser.

37. Ar y llaw arall, er bod y dewis hwn yn galluogi gweinyddiaethau yng Nghymru a gweddill y DU i gadw rheolaeth lawn dros gydnabyddiaeth, ansawdd a diogelwch dyfroedd mwynol naturiol yr UE, mae'n gyfnod hir i ymrwymo i ddim newid.

C5: Ydych chi’n cytuno bod y rhagdybiaethau a amlinellir ym mharagraffau 24 – 34 yn rhesymol?

C6: Yn eich barn chi, beth yw’r dewis gorau o’r rhai a ddisgrifir?
Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

C7: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod i sicrhau y caiff effeithiau Dewis 1 eu lliniaru?

C8: Os ydych chi’n cefnogi Dewis 1, ydych chi’n meddwl y dylai fod cyfnod trosiannol lle gellir parhau i roi stoc a ddaliwyd cyn ymadael â’r UE ar y farchnad y DU?

C9: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod i sicrhau y caiff effeithiau Dewis 1 eu lliniaru?
Rhowch dystiolaeth ar effeithiau posibl Dewis 1 os na fyddai cyfnod trosiannol yn cael ei ganiatáu yn eich atebion i’r adran ‘Effeithiau’ isod.

Darpariaethau trosiannol – labelu bwyd

38. Mae'r ASB o'r farn y gellid caniatau cyfnod addasu a throsglwyddo priodol, yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE, pan fydd modd parhau i roi bwyd sy'n bodloni'r gofynion labelu bwyd a oedd ar waith cyn ymadael â'r UE ar y farchnad.

39. Yn hyn o beth, rydym ni'n cynnig y dylid gosod darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth drosiannol a gynigir ar gyfer Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015.

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

40. Fel rhan o'r cywiriadau ledled y DU i gadw Rheoliad uniongyrchol 1169/2011 yr UE ar labelu bwyd, mae Llywodraeth y DU yn cynnig diwygio Erthygl 8 o'r Rheoliad hwnnw i fynnu bod labeli bwyd yn arddangos enw a chyfeiriad, yn y DU, y busnes bwyd sy'n gyfrifol am y bwyd, neu enw a chyfeiriad ei fewnforiwr i'r DU. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r label bwyd ddangos cyfeiriad unrhyw le yn yr UE.

41. Effaith diwygiad Llywodraeth y DU i Erthygl 8 o Reoliad 1169/2011 yw bod rhaid i fusnesau sy'n dymuno i'w bwyd gael ei roi ar y farchnad yn y DU fod wedi'u sefydlu yn y DU, neu mae'n rhaid iddynt drefnu i'w bwyd gael ei fewnforio i'r DU gan fewnforiwr yn y DU. Gallai hyn fod â goblygiadau sylweddol i fusnesau bwyd sydd wedi'u lleoli yn yr UE ar hyn o bryd ac sy'n dymuno gwerthu eu bwyd yng Nghymru.

42. Byddai'r ddarpariaeth drosiannol arfaethedig yn golygu y gallai busnesau bwyd, am gyfnod penodol o amser (er enghraifft 18 mis), barhau i labelu bwyd a'i roi ar y farchnad hyd yn oed os yw'r label bwyd yn dangos cyfeiriad y busnes bwyd/mewnforiwr yn yr UE-27 yn unig. Yna, gallai cynhyrchion o'r fath barhau ar y farchnad nes bod y stociau'n dod i ben. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymgynghori ar ddarpariaethau trosiannol tebyg.

43. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud cywiriadau ledled y DU i gadw Rheoliad uniongyrchol 1337/2013 ar nodi gwlad tarddiad ar gigoedd o foch, defaid, geifr a dofednod. Mae'r diwygiadau'n cynnwys cywiriadau i Erthyglau 5-7 y Rheoliad er mwyn disodli'r gofynion labelu cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr UE. Er enghraifft, mae Erthygl 5 ar hyn o bryd yn mynnu bod mathau penodol o foch, defaid, geifr a dofednod sydd wedi'u lladd yn cael eu marcio â "Wedi'u magu yn: nifer o Aelod-wladwriaethau'r UE". Bydd y gwelliannau yn newid y gofyniad fel bod yn rhaid labelu'r cig penodedig â "Wedi'u magu yn: nifer o wledydd".

44. Caiff Rheoliad yr UE 1337/2013 ei orfodi yng Nghymru gan Reoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015. Gallai darpariaeth drosiannol ganiatáu i fusnesau bwyd osod/cadw ar y farchnad unrhyw gig y maent wedi'i labelu, cyn ymadael â'r UE, yn unol â'r gofynion labelu cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr UE. Byddai busnesau bwyd yn gallu cadw'r cynhyrchion ar y farchnad hyd nes i stoc ddod i ben. Byddai hyn yn lleihau unrhyw effaith bosibl y byddai'r diwygiadau labelu yn ei chael ar fusnesau bwyd.

C10: Ydych chi'n ystyried bod angen cyfnod trosiannol?

C11: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod?

Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

**Effeithiau**

Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd

Anifeiliaid **Costau Ymgyfarwyddo Untro**

Diwydiant

45. Rydym ni'n cymryd yn ganiataol bod pob sefydliad bwyd cofrestredig yn ymwneud â'r maes hwn o ddeddfwriaeth ac felly bydd yn rhaid iddynt fuddsoddi i ddeall y ddeddfwriaeth newydd. Yn ôl Cofrestr Busnesau Rhyngadrannol yr ONS (IDBR), roedd 292,860 o fusnesau gweithredol yn y sector bwyd-amaeth yn y DU yn 2017. Rydym ni'n rhagweld costau ymgyfarwyddo untro (*one off*) i fusnesau. Rydym ni'n amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at 2 awr i bob busnes ddarllen a deall y rheoliadau arfaethedig ac yna rhannu'r wybodaeth â staff allweddol o fewn eu cwmni. Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau a ragwelir yn cyflwyno unrhyw effaith arall ar weithrediadau busnesau o ddydd i ddydd gan nad yw'r rheolau yn newid o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Gorfodi

46. Mae yna 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid ydym ni'n rhagweld costau ymgyfarwyddo mawr i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd; rydym ni'n amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at 2 awr i awdurdodau ddarllen ac ymgyfarwyddo â Rheoliadau'r UE ac yna lledaenu'r wybodaeth i staff a rhanddeiliaid allweddol. Amcangyfrifir y bydd gofyn i un swyddog ym mhob un o'r awdurdodau hyn (un Swyddog Bwyd/Bwyd Anifeiliaid o bob awdurdod lleol; ac un

'Swyddog Iechyd Porthladd' o bob awdurdod iechyd porthladd) gyflawni'r dasg hon.

47. O'i gymharu â'r system gyfredol, ni fyddai unrhyw faich ychwanegol na newydd ar gyrff gorfodi, ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y costau uchod.

**Buddion**

48. Nid oes unrhyw fuddion cynyddol sy'n gysylltiedig â'r cynnig gan nad yw'n gosod beichiau ychwanegol na newydd ar fusnesau na chyrff gorfodi.

Safonau Ynghylch Cyfansoddiad a Labelu Bwyd

**Effaith newidiadau i'r Rheoliadau Mêl**

49. Mewn perthynas â chynigion dau a thri, rydym ni'n rhagweld mai'r prif gostau heb eu moneteiddio (*non-monetised*) fyddai'r rheiny sy'n gysylltiedig ag ail-labelu, a chostau ymgyfarwyddo. Byddai hyn yn effeithio ar bob busnes sy'n cynhyrchu mêl cymysg o fwy nag un wlad ar hyn o bryd gan ddefnyddio terminoleg yr UE/heb fod o'r UE. Gallai cynnwys y cyfnod pontio arfaethedig roi mwy o amser i fusnesau gydymffurfio â'r gofynion newydd a gallai ganiatáu ar gyfer cynnwys costau ail-labelu mewn newidiadau labelu cynlluniedig.

Rydym ni'n dymuno defnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu tystiolaeth a byddem ni'n croesawu sylwadau ar unrhyw gostau neu fuddion a gredwch nad ydym ni wedi eu hystyried neu farn wahanol am y rhagdybiaethau yn yr adran hon.

**Effaith newidiadau i'r Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol**

50. Ar gyfer Dewis Polisi 1 (gwneud dim) bydd effaith ar ddosbarthwyr a manwerthwyr sy'n dal stoc ar ôl ymadael â'r UE os na fydd dŵr mwynol naturiol o'r UE bellach yn cael ei gydnabod ac felly ni chaniateir ei osod ar farchnad y DU. Efallai y bydd costau hefyd wrth ddod o hyd i gynhyrchion a rhwydweithiau dosbarthu newydd ar gyfer busnesau yng Nghymru sy'n storio, yn gwerthu neu'n dibynnu ar frandiau'r UE yn unig ar hyn o bryd.

51. Gall Dewis 1 gynnig cyfleoedd i fusnesau Cymru sy'n cynhyrchu dŵr mwynol naturiol ehangu i unrhyw fwlch a adewir wrth gael gwared ar gyflenwyr dŵr mwynol naturiol o'r UE o farchnad y DU. Bydd hyn yn dibynnu ar ba mor ddigonol yw busnesau o'r fath, a'u gallu i gael mynediad at rwydweithiau dosbarthu.

52. Ar gyfer dyfroedd mwynol naturiol, nid yw'r prif gostau wedi'u moniteiddio yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt' yn arwyddocaol ar gyfer Dewis Polisi 2 a Dewis 3 gan fod y dewisiadau hyn yn cynrychioli'r status quo yn syth ar ôl ymadael â'r UE. Felly, nid oes unrhyw effaith economaidd wedi'i rhagweld, gan na fyddai unrhyw wahaniaeth i'r hyn sy'n digwydd nawr. O ran y manteision allweddol nad ydynt wedi'u moniteiddio yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt', mae'n cynnal y lefel bresennol o ran dewis defnyddwyr, sefydlogrwydd y farchnad, a hynny yn nhermau prisiau a chyfran o'r farchnad.

Rydym ni'n dymuno defnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu tystiolaeth a byddem ni'n croesawu sylwadau ar unrhyw gostau neu fuddion a gredwch nad ydym ni wedi eu hystyried neu farn wahanol am y rhagdybiaethau yn yr adran hon.

53. Nid ydym wedi cynhyrchu Asesiad Effaith ar hyn o bryd ond byddwn ni'n ailedrych ar hyn, gan ddibynnu ar adborth rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad hwn.

**Y Broses Ymgynghori**

54. Rydym ni'n lansio ymgynghoriad 4 wythnos i roi cyfle i bawb sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y cynigion.

55. Bydd pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried yn ofalus a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan o fewn tri mis o greu'r rheoliadau arfaethedig.

**Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad**

**Mêl**

C1: Ydych chi'n cytuno bod y rhagdybiaeth a amlinellir ym mharagraffau 14 – 18 yn rhesymol?

C2: Yn eich barn chi, beth yw'r dewis gorau o'r rhai a ddisgrifir?
Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

C3: Ydych chi'n ystyried bod angen cyfnod trosiannol ar gyfer dewisiadau dau a thri?

C4: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod?

**Dŵr mwynol naturiol**

C5: Ydych chi'n cytuno bod y rhagdybiaethau a amlinellir ym mharagraffau 24 – 34 yn rhesymol?

C6: Yn eich barn chi, beth yw'r dewis gorau o'r rhai a ddisgrifir?
Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

C7: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod i sicrhau y caiff effeithiau Dewis 1 eu lliniaru?

C8: Os ydych chi'n cefnogi Dewis 1, ydych chi'n meddwl y dylai fod cyfnod trosiannol lle gellir parhau i roi stoc a ddaliwyd cyn ymadael â'r UE ar y farchnad y DU?

C9: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod i sicrhau y caiff effeithiau Dewis 1 eu lliniaru?

**Cyfnod trosiannaol – labelu bwyd**

C10: Ydych chi'n ystyried bod angen cyfnod trosiannol?

C11: Pa mor hir ydych chi'n ystyried y dylai cyfnod trosiannol o'r fath fod?

**Y Gymraeg**

C12: Ydych chi'n ystyried y bydd y polisi/Rheoliadau yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

C13: Hoffem wybod eich barn ar effaith y rheoliadau arfaethedig ar y Gymraeg, yn arbennig yn ymwneud â:

i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

C14: Pa effeithiau ydych chi'n eu rhagweld? Sut ellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

**Dogfennau perthnasol eraill**

**Rhestr o ddyfroedd mwynol naturiol a gydnabyddir yn y DU**
https://www.gov.uk/guidance/food-standards-labelling-durability-andcomposition#bottled-water (Saesneg yn unig)

**Hysbysiad y Comisiwn**
https://ec.europa.eu/food/sites/food/files/safety/docs/notice_brexit_mineral_waters.pdf (Saesneg yn unig)

**Ymatebion**

**37.** Rhaid i'r ymatebion ddod i law erbyn diwedd **dydd Llun 4 Chwefror 2019.** Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Kerys James-Palmer
Tîm Polisi Rheoleiddio
Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

Amgaeedig

**Atodiad A:Gwybodaeth Safonol am yr Ymgynghoriad**
**Atodiad B: Rhestr o bawb sydd â diddordeb**

## Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

### Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

### Pam ein bod yn casglu eich data personol a'r hyn a wnawn â'r data hwnnw

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth hon am uchafswm o 7 mlynedd wedi iddi ddod i law.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi’u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a’u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

### Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://ico.org.uk/, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

## Atodiad B – Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

NFU Cymru

FUW (Undeb Amaethwyr Cymru)

HCC (Hybu Cig Cymru)

NSA (Farm Assured Welsh Livestock)

FAWL (Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru)

NFMFT (Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Cig a Bwyd)

WLBP (Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru)

Seafish

SAGB (Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr)

Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

Menai Mussels

Ffederasiwn Busnesau Bach

Ffederasiwn Masnach Darpariaeth

Zero to five

Canolfan Bwyd Horeb

Canolfan Technoleg Bwyd

Prima Foods

Ultrapharm

Finsbury Foods

CH Food

Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain

BHA (Cymdeithas Lletygarwch Prydain)

Consortiwm Manwerthu Prydain
The Preselli Gold Sausage Co

Jersey Bakery Ltd

GRH Food Company Ltd

Burger Manufacturing Company Limited

EuroCaps Ltd

Tillery Valley Food Ltd

Gwaun Valley Meats

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Shoda Sauces Europe Company Limited

James Hall & Co Ltd

Y Ganolfan Technoleg Bwyd

Mitchells & Butlers plc

Castell Howell Food Ltd

Dunbia (Cymru)

Minton, Treharne & Davies

Mirandas Preserves

NFU Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru

Hybu Cig Cymru

Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cymdeithas Brechdanau Cymru

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Cig Oen Caron

ABP Food Group

3M Health Care Limited

FoodChain Europ Ltd

Cyngor Bugeilio Ucheldir Cymru

Minton, Treharne & Davies Limited

Goch & Company Ltd

Sweet Delights

Cwmni Caws Sir Gaerfyrddin Pont Gar

Becws Welsh Hills

Castell Howell Foods Ltd

Baraka Foods Ltd

The Patchwork Traditional Food Company

Cymdeithas Defaid Genedlaethol Cymru

Farmers For Action

Prifysgol Aberystwyth

Cymdeithas Prydeinig ar gyfer Saethu a Chadwraeth

Farmers Guardian

Welsh lam band Beef Producers Ltd

Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Cig a Bwyd

Lower Bank Farm

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru

St Merryn Meats Limited

Tillery Valley Foods Ltd

Cymdeithas Defaid Llanwenog

Abergavenny Consultancy Ltd

Cymdeithas Defaid Genedlaethol Cymru

Adnoddau Naturiol Cymru

Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)